Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
DYDDIAD:	**23 Tachwedd 2022**
LLEOLIAD:	**Hybrid**
TEITL:	**Adroddiad ar yr adolygiad o Bolisi RIPA ac Arolygiad IPCO (Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio)**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Gwybodaeth**
Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	**Dim cais wedi'i wneud**
CEFNDIR:	

Dygwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor ddiwethaf ar 26ain Medi 2022 (gweler adroddiad 26ain Medi 2022 yn:
https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=315&Ver=4&LLL=0

Adolygiad o Bolisi RIPA
Mae Paragraff 4.47 Cod Ymarfer diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo (2018) yn nodi y dylai aelodau etholedig awdurdod lleol adolygu defnydd yr awdurdod o RIPA a phennu'r polisi unwaith y flwyddyn. Adroddwyd ar Weithgarwch RIPA yn yr adroddiad blaenorol i'r pwyllgor hwn ar 26ain Medi 2022. Cafodd diwygiadau i Bolisi RIPA eu cyflwyno'n fwyaf diweddar i'r pwyllgor hwn ar 15fed Medi 2022.

Arolygiad IPCO
Yn y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 26ain Medi 2022, adroddwyd bod cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda'r IPCO yn rhan o'i arolygiad. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, mae'r Cyngor yn awr wedi derbyn llythyr gan yr IPCO yn crynhoi prif ganfyddiadau'r arolygiad.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

1) Adolygiad o Bolisi RIPA

Mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol wedi adolygu Polisi RIPA ers hynny ac wedi gwneud diwygiadau lle'n briodol i sicrhau bod y polisi'n parhau yn gyfredol o ran canllawiau a deddfwriaeth bresennol gan wneud ychwanegiadau hefyd i adlewyrchu'r gweithdrefnau newydd yn dilyn awgrymiadau a wnaed yn ystod arolygiad IPCO a'i newyddlen chwarterol.

Ceir fersiwn ddiwygiedig o Bolisi RIPA yn **Atodiad 1**, gyda'r Newidiadau Trac yn ymddangos

mewn coch.

Mae'r newidiadau allweddol fel a ganlyn:

- Diweddariad wedi'i gynnwys i egluro na chafodd Brexit effaith awtomatig ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998 nac ymgorfforiad y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith y DU.
- Wedi ychwanegu cyfeiriad at gofnodi gweithgarwch gwyliadwriaeth ar-lein gan Swyddogion Dynodedig at ddibenion goruchwylio.
- Wedi ychwanegu cyfeiriad at bwysigrwydd ymwybyddiaeth staff er mwyn osgoi gadael i bethau lithro'n ddifeddwl i weithgarwch sy'n gofyn am awdurdodiad RIPA.
- Wedi ychwanegu cyfeiriadau at gopi diwygiedig drafft o Gôd Ymarfer CHIS (Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol) 2022.
- Wedi ychwanegu cyfeiriadau at storio a thrin a thrafod data gan gynnwys diogelwch ffisegol offer recordio, cofnod o ddefnydd a'r Atodlen Cadw Corfforaethol.
- Wedi ychwanegu adran ar Adrodd ar Gamgymeriadau Perthnasol.
- Wedi ychwanegu adran ar Ganllawiau IPCO ar Godi Pryder.
- Wedi diweddaru deddfwriaeth.
- Wedi diweddaru hyperddolenni.
- Wedi diweddaru manylion cyswllt.
- Cywiriadau gramadegol a fformatio.

2) Adroddiad Arolygiad IPCO

Yn dilyn y cyfarfodydd arolygiad a gynhaliwyd gyda'r Arolygydd IPCO ar 22ain a 30ain Awst, derbyniwyd llythyr gan IPCO yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau. Ceir y llythyr hwn yn **Atodiad 2.** Cafodd y llythyr hwn ei olygu, ar gais IPCO, gan ddileu enw'r arolygydd ynghyd â llofnod Sir Brian Leveson.

3) Ymateb i Arolygiad IPCO

Ymatebodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol i Lythyr Adroddiad Arolygu IPCO (**Atodiad 2**) i gyflwyno'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r awgrymiadau a wnaed. Ceir y llythyr hwn yn **Atodiad 3.**

4) Cais am Weithgarwch RIPA – Diweddaru E-bost

Mewn ymateb i'r trafodaethau a gafodd eu cynnal yn ystod yr arolygiad ynghylch amlder dim gweithgarwch o ran gwyliadwriaeth ar-lein, crëwyd templed e-bost newydd a fydd yn cael ei ddefnyddio wrth wneud cais i Swyddogion Dynodedig am adroddiadau chwarterol ar weithgarwch gwyliadwriaeth ar-lein. Bwriad y templed wedi'i ddiweddaru hwn yw rhoi mwy o eglurder o ran y wybodaeth y gofynnir amdani. Atodir y templed e-bost hwn yn **Atodiad 4** er gwybodaeth.

5) Newyddlen Chwarterol IPCO

Mae'r IPCO wedi cyhoeddi ei newyddlen chwarterol ar gyfer Hydref 2022. Mae ar gael ar wefan IPCO yn https://www.ipco.org.uk/publications/correspondence/ ac fe'i hatodir i'r adroddiad hwn yn **Atodiad 5.**

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith** Na **Integredig? Os na, nodwch pam** **Crynodeb:** Darperir yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n cynrychioli newid polisi neu strategaeth. **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Bod y Pwyllgor:

1) Yn nodi cynnwys y copi drafft diwygiedig o Bolisi Corfforaethol RIPA a'r Ddogfen Weithdrefnau (**Atodiad 1**);
2) Yn nodi cynnwys Adroddiad Arolygiad IPCO (**Atodiad 2**);
3) Yn nodi cynnwys ymateb yr Uwch-swyddog Cyfrifol i Adroddiad Arolygiad IPCO (**Atodiad 3**);
4) Yn nodi cynnwys y Cais E-bost wedi'i ddiweddaru am Weithgarwch RIPA (**Atodiad 4**); ac
5) Yn nodi cynnwys Newyddlen Chwarterol IPCO ar gyfer Hydref 2022 (**Atodiad 5**).

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Gwneud yn siŵr bod y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf o ran diwygiadau i Bolisi RIPA a chanlyniad Arolygiad RIPA ar y Cyngor yn ddiweddar gan IPCO.

Atodiadau:

Atodiad 1 – Copi Drafft Diwygiedig o Bolisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA), Hydref 2022
Atodiad 2 - Gwyliadwriaeth IPCO ac Arolygiad CHIS - Cyngor Sir Ceredigion 16 Medi 2022
Atodiad 3 - Ymateb yr Uwch-swyddog Cyfrifol i Arolygiad IPCO
Atodiad 4 – Cais am Weithgarwch Gwyliadwriaeth Gudd i Swyddogion Dynodedig
Atodiad 5 - Newyddlen Chwarterol IPCO, Hydref 2022

Enw Cyswllt:	Elin Prysor
Teitl:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Dyddiad yr Adroddiad:	02/11/2022
Acronymau:	RIPA: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 SRO: Uwch-swyddog Cyfrifol IPCO: Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio